Y CRIW
Mentrus
Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd



Cyfnod Sylfaen

Gweithgaredd 6:
Beth fyddwn ni'n galw arnon ni'n hunain?

Amcan dysgu
Annog gwneud penderfyniadau a gweithio gyda phobl eraill.

Nodweddion Entrepreneuriaeth

Creadigedd
- Meddwl Dargyfeiriol – creu syniadau
- Arloesi

Cysylltiadau
- Cyfathrebu
- Gweithio gyda Phobl Eraill

Trefniadaeth
- Gwneud Penderfyniadau

Gweithgareddau dysgu
Gan ddefnyddio samplau sy'n cael eu darparu gan yr athro o frandiau adnabyddus teganau, bwydydd, siopau ac ati, mae'r disgyblion yn adnabod logos ac enwau am gynhyrchion/cwmnïau.

Mewn grwpiau, trafodwch beth ym marn y disgyblion sy'n enwau da neu wael am gynhyrchion neu gwmnïau a pham maen nhw'n eu hoffi/ddim yn eu hoffi.

Anogwch y disgyblion i greu syniadau am enwau am eu 'cwmni' / prosiect menter.

Gan weithio mewn grwpiau, mae'r disgyblion yn trafod yr enwau ac yn cytuno ar yr enw sydd orau ganddyn nhw.

Mae'r disgyblion yn dylunio logo neu fathodyn gydag enw cwmni.

Mae pob grŵp yn adrodd eu syniadau i'r dosbarth.

Gofynnwch i weddill y dosbarth bleidleisio ar yr enwau sydd wedi cael eu dewis a phenderfynu ar syniad/ 'cwmni' y dosbarth.

Gweithgaredd 6: Beth fyddwn ni'n galw arnon ni'n hunain?

Cyfnod Sylfaen

Canlyniad dysgu

Bydd y disgyblion yn creu amrediad o syniadau syml ac yn dechrau mynegi safbwyntiau.

Adnoddau mae eu hangen

- Papurau newydd
- Cylchgronau
- Pecynnu
- TGCh

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

1. Fframwaith Cyfnod Sylfaen ar gyfer Dysgu Plant

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

- Meddwl am gwestiynau ac yna eu gofyn a gwrando ar yr ateb.
- Nodi beth maen nhw eisiau ei ddarganfod a sut i fynd ati.

2. Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Llythrennedd – Llafaredd ar draws y cwricwlwm

Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau;

- Gwrando;
- Cydweithredu a thrafod.

Syniadau Mawr Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government